



# Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

## Datganiadau Polisi Gweinyddol

**Teitl:** Polisi Iaith Gyfathrebu

### 1. **Diben:**

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cael eu darparu yn iaith ddewisol ein haelodau, gan hyrwyddo cynwysoldeb a hygyrchedd.

### 2. **Cwmpas y polisi:**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd.

### 3. **Datganiad Polisi:**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cael eu darparu yn iaith ddewisol ein haelodau, gan hyrwyddo cynwysoldeb a hygyrchedd. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau y bydd y Gronfa yn eu cymryd mewn perthynas â dewis iaith aelodau.

### 4. **Manylion y Polisi:**

Dyma'r polisi y mae'r Gronfa yn ei ddilyn:

#### 4.1 **Iaith ddiodyn:**

- Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw gohebu ag aelodau yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd. Anogir aelodau i hysbysu'r Gronfa o'u dewis iaith i hwyluso hyn.
- Os nad yw dewis iaith aelod yn hysbys, bydd yr holl ddogfennau a chyfathrebiadau yn cael eu hanfon yn Gymraeg yn unol â pholisi Cyngor Gwynedd.

#### 4.2 **Gofyn am Gopïau Saesneg:**

- Mae croeso i aelodau sydd wedi derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gysylltu â'r Gronfa i dderbyn copi Saesneg. Bydd y Gronfa yn anfon y copi Saesneg yn ddi-oed.

#### 4.3 **Diweddarau Dewis Iaith:**

- Gall aelodau ddiweddarau eu dewis iaith ar unrhyw adeg trwy'r dulliau canlynol:
  - **Pecyn cychwynnol:** Gall pob aelod ddewis iaith wrth lenwi'r ffurflen gychwynnol a anfonir allan fel rhan o'r pecyn cychwynnol ar ôl ymuno â'r cynllun.
  - **Ar-lein:** Trwy fewngofnodi i'w cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein a diweddarau eu gosodiadau dewis iaith.
  - **Cyswllt Uniongyrchol:** Drwy gysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd yn uniongyrchol dros y ffôn neu e-bost i ofyn am newid yn eu dewis iaith.

#### 4.4 Fformatau Hygyrch:

- Mae cyfathrebiadau ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys braille, print bras, a sain, ar gais i sicrhau bod pob aelod yn gallu cyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.
- Gellir gwneud ceisiadau am fformatau hygyrch trwy gysylltu â'r gronfa a byddant yn cael eu cyflawni'n brydlon.

#### 5. Adolygu ac diwygio

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion ein haelodau ac yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau mewn rheoliadau neu bolisiau sefydliadol perthnasol.

#### 6. Manylion Cyswllt:

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** [pens@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pens@gwynedd.llyw.cymru)
- **Gwefan:** [www.cronfabensiwngwynedd.llyw.cymru](http://www.cronfabensiwngwynedd.llyw.cymru)

---

**Cymeradwywyd gan:** [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: